

CYFANSODDIAD CYMDEITHAS CERDD DANT CYMRU

Y cyfansoddiad gwreiddiol

Argymhellion newydd

| ENW, DIBENION | ENW, AMCANION |
|--|--|
| 1. ENW. Enw'r Gymdeithas fydd Cymdeithas Cerdd Dant Cymru. | <i>Dim newid</i> |
| 2. DIBENION. Dibenion y Gymdeithas fydd: (i) Hyrwyddo cynnydd addysg a gwerthfawrogiad y cyhoedd ym maes cerddoriaeth, gyda sylw arbennig i gelfyddyd canu penillion a chanu'r delyn, drwy ddarparu cyfleusterau ar gyfer cyfrannu gwybodaeth am Gerdd Dant a meithrin medr mewn Cerdd Dant; (ii) gan gynnwys sicrhau i'r adran draddodiadol yma o gerddoriaeth Cymru le anrhydeddus yn rhaglen yr Eisteddfod a'r Gwyliau Cenedlaethol, ynghyd a phob eisteddfod arall, a chydabyddiaeth o bersonau cyfarwydd yng nghanerdd dant gan Orsedd Beirdd Ynys Prydain drwy eu derbyn yn aelodau o'r Orsedd trwy arholiad arbennig ar Gerddoriaeth. | 2. AMCANION. Amcanion y Gymdeithas fydd hyrwyddo cynnydd addysg a gwerthfawrogiad y cyhoedd drwy ddiogelu a datblygu'r gelfyddyd o ganu penillion gyda'r tannau, neu gerdd dant, yng Nghymru a thu hwnt, trwy unrhyw ddull a dybir sy'n addas. |
| 3. HAWLIAU. Bydd gan y Gymdeithas bob hawl i wneud popeth a dybir yn angenrheidiol er sicrhau llwyddiant i'w dibenion. | 3. HAWLIAU. Bydd gan y Gymdeithas bob hawl i wneud popeth a dybir sy'n angenrheidiol i wireddu'r amcanion uchod. |
| AELODAETH | |
| 4. AELODAETH. Derbynnir yn aelod o'r Gymdeithas unigolion a sefydliadau sy'n cefnogi dibenion y Gymdeithas. Bydd y Pwyllgor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth, ac ni bydd gan aelod hawl i freintiau aelodaeth nes talu'i danysgrifiad. | 4. AELODAETH. Derbynnir yn aelod o'r Gymdeithas unigolion, sefydliadau, a chorau/partion sy'n cefnogi amcanion y Gymdeithas. Bydd y Pwyllgor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth, ac ni bydd gan aelod hawl i freintiau aelodaeth nes talu'i danysgrifiad. |
| 5. TANYSGRIFIAD AELODAETH. Penderfynir y tanysgrifiad blynyddol o bryd i'w gilydd gan y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yn ol anghenion ariannol y Gymdeithas. Derbynnir disgyblion sy'n derbyn addysg llawn amser hyd at 18 oed ar delerau gostyngol. | 5. TANYSGRIFIAD AELODAETH. Penderfynir y tanysgrifiad blynyddol gan y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol, gyda thelerau gostyngol i fyfyrwyr sy'n derbyn addysg llawn amser hyd at 18 oed. |
| 6. DIARDEL AELOD. Os cyhuddir unrhyw aelod o ymddwyn yn groes i fuddiannau neu egwyddorion y Gymdeithas, gall y Pwyllgor anfon rhybudd iddo yn gosod allan fanylion y gwyn sydd yn ei erbyn, gan roddi cyfle, drwy rybudd heb fod yn llai na 14 diwrnod, iddo ymddangos gerbron y Pwyllgor i osod allan amddiffyniad i'r cyhuddiad. Yna, ar ol gwrandawriad, gall y Pwyllgor, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau yn pleidleisio, ddiarddel yr aelod. (Wrth ddiarddel aelod, gadewir ar ddoethineb y Pwyllgor benderfynu a ad-delir iddo ei dal aelodaeth am flwyddyn neu ran ohono. | 6. DIARDEL AELOD. Gellir diarddel unrhyw aelod sy'n ymddwyn yn groes i fuddiannau'r Gymdeithas, sy'n dwyn anfri arni neu sy'n pardduo ei henw. Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith yn y lle cyntaf benderfynu, drwy bleidlais mwyafrif, fod achos i'w ateb. Dylid wedyn anfon rhybudd i'r aelod yn manylu ar y gwyn sydd yn ei erbyn/ei herbyn ynghyd â gwys iddo/iddi, o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw, i ymddangos gerbron y Pwyllgor er mwyn amddiffyn y cyhuddiad, neu i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Ar ôl y gwrandawriad gall y Pwyllgor Gwaith ddiarddel yr aelod drwy bleidlais o leiaf dwy ran o dair o'r aelodau. |
| CYFARFOD CYFFREDINOL | |
| 7. CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol o fewn naw mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol; y dyddiad a'r lleoliad i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gwaith. | 7. CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol o fewn naw mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol; y dyddiad a'r lleoliad i'w benderfynu gan y Pwyllgor Gwaith. Dylai pob aelod gael rhybudd o leiaf 21 diwrnod ymlaen llaw am ddyddiad a lleoliad y cyfarfod a hefyd y materion sydd i'w trafod. |
| 8. CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG. Bydd i'r Ysgrifennydd alw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar orchymyn y Pwyllgor Gwaith, neu ar gais ysgrifenedig pump neu fwy o aelodau, yn y man ac ar yr amser a dybir yn fwyaf hwylus i'r rhan fwyaf o aelodau. Rhaid i'r rhybudd am Gyfarfod Cyffredinol Arbennig ymddangos mewn papurau cenedlaethol (Cymraeg) o leiaf bythefnos cyn ei gynnal. Ni chaniateir trafod mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ond y materion hynny a enwyd yn y rhybudd am y Cyfarfod. | 8. CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG. Bydd y Swyddog Gweinyddol yn galw Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ar orchymyn y Pwyllgor Gwaith, neu ar gais ysgrifenedig pump neu fwy o aelodau, yn y man ac ar yr amser a dybir yn fwyaf hwylus i'r rhan fwyaf o aelodau. Rhaid i'r rhybudd am Gyfarfod Cyffredinol Arbennig ymddangos mewn un neu fwy o bapurau cenedlaethol Cymraeg o leiaf bythefnos cyn ei gynnal, neu mewn cylchlythyr i bob aelod o leiaf bythefnos cyn ei gynnal, yn ogystal ag ar wefan y gymdeithas. Rhaid i'r rhybudd nodi pa fater neu faterion sydd i'w trafod. Ni chaniateir trafod mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig ond y materion hynny a enwyd yn y rhybudd am y Cyfarfod. Deg aelod fydd cworwm Cyfarfod Cyffredinol Arbennig. |

| | |
|---|---|
| 9. PLEIDLEISIO. Ym mhob Cyfarfod Cyffredinol bydd gan bob aelod bleidlais. Bydd gan y Cadeirydd un bleidlais gyda phleidlais ychwanegol pan fo pleidleisio y cyfarfod yn gyfartal. | 9. PLEIDLEISIO. Ym mhob Cyfarfod Cyffredinol bydd gan bob aelod bleidlais. Bydd gan y Cadeirydd hefyd un bleidlais ynghyd â phleidlais fwrw ychwanegol os oes pleidlais gyfartal yn y cyfarfod. |
| 10. CWORWM CYFARFOD CYFFREDINOL. Os na fydd penderfyniad i'r gwrthwyneb yn y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol, deg aelod fydd Cworwm Cyfarfod Cyffredinol, heb gyfrif y swyddogion. | <i>Dim newid</i> |
| 11. BUSNES CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL. Gwaith y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol fydd: (a) Derbyn ac ystyried adroddiadau y Pwyllgor Gwaith a'r Cyfrifon (b) Ethol Llywydd ac Is-Lywydd (c) Dewis cyfreithiwr neu gyfreithwyr mygedol yngyd ag archwilwyr (ch) Unrhyw fater arall yn ymwneud â pholisi ac amcanion y Gymdeithas. | 11. BUSNES CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL. Gwaith y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol fydd: (a) Derbyn ac ystyried adroddiadau y Pwyllgor Gwaith a'r Cyfrifon (b) Ethol Llywydd ac Is-Lywydd, a chadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Gwaith (c) Dewis cyfreithiwr neu gyfreithwyr mygedol ynghyd â Chyfrifydd am y flwyddyn i ddod. (ch) Unrhyw fater arall yn ymwneud â pholisi ac amcanion y Gymdeithas. |
| YMDDIRIEDOLWYR | |
| 12. Yn unol â Deddf Elusennau 1992 aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn unig fydd ymddiriedolwyr y Gymdeithas. Bydd gan yr ymddiriedolwyr bob hawl ac awdurdod i weithredu yn ol gofynion y Ddeddf. | 12. Yn unol â Deddf Elusennau 2006 aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn unig fydd ymddiriedolwyr y Gymdeithas. Bydd gan yr ymddiriedolwyr ddyletswydd i weithredu yn ôl gofynion y Ddeddf a Rheolau cyfredol y Comisiwn Elusennau. |
| SWYDDOGION A PHWYLLGOR GWAITH | |
| 13. SWYDDOGION. Swyddogion y Gymdeithas fydd y Llywydd, Is-Lywydd, y Trysorydd, yr Ysgrifennydd, Trefnydd yr Wyl Gerdd Dant a'r Swyddog Telynu. | 13. SWYDDOGION. Swyddogion y Gymdeithas fydd: Llywydd, Is-Lywydd, Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Trysorydd, yn ogystal ag unrhyw swyddogion cyflogedig. Etholir y swyddogion hyn i gyd, ag eithrio'r swyddogion cyflogedig, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, i gychwyn ar eu gwaith yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith. Y swyddogion hyn hefyd fydd swyddogion y Pwyllgor Gwaith, ag eithrio'r Llywydd a'r Is-Lywydd, a etholir er anrhydedd. |
| 14. LLYWYDD AC IS-LYWYDD. Etholir y Llywydd a'r Is-Lywydd gan y Gymdeithas yn ei Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, a daliant eu swydd am flwyddyn. Os bydd yr Is-Lywydd sy'n ymdeol yn barod i weithredu fel Llywydd, ef a etholir yn Llywydd. Bydd y swyddogion hyn yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhinwedd eu swydd. | 14. LLYWYDD AC IS-LYWYDD. Etholir y Llywydd a'r Is-Lywydd gan y Gymdeithas yn ei Chyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, a byddant yn dal eu swydd hyd at y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf. Pan fydd blwyddyn yr Is-Lywydd yn dod i ben, ef neu hi a etholir yn Llywydd. Byddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhinwedd eu swydd. |
| 15. Y TRYSORYDD. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn dewis Trysorydd ac ef fydd yn gyfrifol am gadw cyfrifon, ac am dalu holl gostau'r Gymdeithas. Bydd gan y Gymdeithas hawl i'w gydnabod am y gwaith, a thalu unrhyw dreuliau. | 15. Y TRYSORYDD. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn dewis Trysorydd ac ef neu hi fydd yn gyfrifol am holl fuddsoddiadau'r Gymdeithas, am gadw cyfrifon, ac am baratoi Adroddiad Ariannol llawn i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, wedi eu cadarnhau gan Gyfrifydd proffesiynol. Dylai'r Adroddiad Ariannol fod ar gael i bob aelod, un ai drwy gylchlythyr neu drwy un o gyhoeddiadau'r Gymdeithas a ddsberthir i bob aelod. Bydd gan y Gymdeithas hawl i gydnabod y Trysorydd am y gwaith, a thalu unrhyw dreuliau. Ni fydd y Trysorydd yn Ymddiriedolwr o'r elusen. |
| 16. YR YSGRIFENNYDD. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn dewis Ysgrifennydd y Gymdeithas ac ef fydd yn gyfrifol am gadw cofnodion holl gyfarfodydd y Gymdeithas a'r Pwyllgor Gwaith a hefyd am yr holl ohebiaethau, gan weithredu fel Ysgrifennydd yn gyffredinol. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i ddiswyddo'r Ysgrifennydd yn unol ag unrhyw gytundeb a wneir agef. Bydd y Gymdeithas yn gyfrifol am dalu ei holl dreuliau ynglyn a'r swydd a hefyd am unrhyw gydnabyddiaeth am ei waith. Penderfynnir swm y gydnabyddiaeth honno bob blwyddyn yn ol doethineb y Pwyllgor. | 16. SWYDDOG/SWYDDOGION CYFLOGEDIG. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i benodi swyddog neu swyddogion cyflogedig yn ôl yr angen, i ymgymryd â gwaith gweinyddol a gwaith trefnu cyffredinol y mudiad, ac i gydlyn trefniadau'r Wyl Cerdd Dant. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn gyfrifol am lunio ac adolygu'r Cytundeb i'r swyddog/swyddogion, am lunio rhaglen o ddyletswyddau, ac am y telerau ariannol. Bydd y Swyddogion Cyflogedig yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ac unrhyw is-bwyllgorau perthnasol yn ôl y gofyn ac ar gais gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd Swyddog Gweinyddol cyflogedig y Gymdeithas yn ysgrifennydd i'r Pwyllgor Gwaith ond nid yw'r swyddogion cyflogedig yn |

| | |
|--|--|
| | Ymddiriedolwyr o'r elusen. |
| 17. Y PWYLLGOR GWAITH. Rhwng y naill Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r llall, trafodir busnes y Gymdeithas gan y Pwyllgor Gwaith, yr hwn a gyfansoddir ac a benodir yn y modd a benderfynir o'r Gymdeithas mewn Cyfarfod Cyffredinol o bryd i'w gilydd. Rhif y Pwyllgor Gwaith fydd deunaw o aelodau yn ychwanegol at y swyddogion, gyda hawl i gyfethol hyd at dri i weithredu am flwyddyn. Gwahoddir cynrychiolydd o unrhyw sefydliad allanol o dan nawdd Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, megis yr Wyl Cerdd Dant i'r Pwyllgor Gwaith fel sylwebydd. | 17. Y PWYLLGOR GWAITH. Rhwng y naill Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r llall, trafodir materion y Gymdeithas gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn fater i'w benderfynu mewn Cyfarfod Cyffredinol. Cyfansoddiad y Pwyllgor Gwaith fydd: - Deunaw o aelodau etholedig - Llywydd ac Is-Lywydd - Hyd at dri aelod wedi eu cyfethol - Cynrychiolwyr o unrhyw sefydliad allanol o dan nawdd Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, megis yr Wyl Cerdd Dant, a wahoddir fel sylwebyddion |
| 18. HAWLIAU'R PWYLLGOR GWAITH. O fewn terfynau'r Cyfansoddiad hwn ac unrhyw welliannau a ychwanegir ato, bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl llawn i weinyddu ac ymgymryd ag unrhyw beth a dybir yn angenrheidiol er hyrwyddo diddordebau ac effeithiolrwydd y Gymdeithas. | 18. HAWLIAU'R PWYLLGOR GWAITH. O fewn terfynau'r Cyfansoddiad hwn ac unrhyw welliannau a ychwanegir ato, bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl llawn i wneud penderfyniadau, i weinyddu ac i ymgymryd ag unrhyw beth a dybir sy'n angenrheidiol er hyrwyddo diddordebau ac effeithiolrwydd y Gymdeithas. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i dalu cydnabyddiaeth i unrhyw aelod am waith penodol, yn ôl eu doethineb, yn unol â rheolau cyfredol y Comisiwn Elusennau – GWELER ATODIAD AR DDIWEDD Y CYFANSODDIAD AM ARWEINIAD PELLACH <u>Hawliau pleidleisio</u> Bydd gan bob un a restrwyd yng nghymal 17 uchod hawl i bleidlais, ac eithrio'r swyddogion cyflogedig, y Trysorydd, y Swyddog Telynu ac unrhyw sylwebydd. |
| 19. AELODAETH A SWYDDOGION Y PWYLLGOR GWAITH. Swyddogion y Pwyllgor Gwaith fydd Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Trysorydd, Trefnydd yr Wyl Cerdd Dant a'r Swyddog Telynu, gydag Ysgrifennydd y Gymdeithas yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Dewisir y swyddogion hyn yng Nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Gwaith ar ol y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | <i>Gweler rhif 13</i> |
| 20. DISWYDDO SWYDDOG. Gellir diswyddo swyddog drwy benderfyniad a fabwysiedir gan y mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodau a o'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith. | <i>20. Dim newid</i> |
| 21. SICRWYDD ARIANNOL. Rhaid i bob swyddog a fydd yng ngofal arian o eiddo'r Gymdeithas roddi unrhyw sicrwydd a geisir gan y Pwyllgor cyn iddo ymgymryd â'i swydd. | 21. SICRWYDD ARIANNOL. Rhaid i bob unigolyn a fydd yng ngofal arian a/neu asedau o eiddo'r Gymdeithas weithredu yn unol â'r gyfraith ac â chyfarwyddyd y Pwyllgor Gwaith. |
| 22. CYFARFODYDD Y PWYLLGOR. Rhaid i'r Ysgrifennydd alw cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith cyn pen 14 diwrnod wedi derbyn cais ysgrifenedg gan y Llywydd, neu o leiaf un aelod o'r Pwyllgor Gwaith. | 22. CYFARFODYDD Y PWYLLGOR. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod o leiaf ddwywaith bob blwyddyn. Gellir galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith ar gais y Cadeirydd neu ar gais o leiaf tri aelod o'r Pwyllgor. Rhaid i bob aelod gael o leiaf 14 diwrnod o rybudd am ddyddiad a lleoliad y cyfarfod a pha fater/materion sydd i'w trafod. |
| 23. CWORWM Y PWYLLGOR GWAITH. Bydd rhaid cael un rhan o dair o'r Pwyllgor er gwneud Cworwm. | <i>23. Dim newid</i> |
| 24. IS-BWYLLGORAU. Gall y Pwyllgor Gwaith sefydlu Is-bwyllgorau yn ol ei ddoethineb yn cynnwys o leiaf un o aelodau'r Pwyllgor Gwaith ynghyd ag unrhyw nifer o bersonau eraill sy'n aelodau o'r Gymdeithas gan benderfynu ymlaen llaw amodau gwaith Is-Bwyllgor. Ni bydd gan Is-Bwyllgor hawl i weithredu ond i'r graddau y diffinir y cyfryw hawl gan ei amodau gwaith. | 24. IS-BWYLLGORAU. Gall y Pwyllgor Gwaith sefydlu Is-bwyllgorau yn ôl ei ddoethineb, yn cynnwys o leiaf un o aelodau'r Pwyllgor Gwaith ynghyd ag unrhyw nifer o unigolion eraill. Y Pwyllgor Gwaith fydd yn penderfynu ar gylch gorchwyl yr is-bwyllgor a bydd pob is-bwyllgor yn uniongyrchol atebol i'r Pwyllgor Gwaith. |
| ERAILL | |
| 25. SWYDDOGION ERAILL. Bydd gan y Pwyllgor hawl i benodi unrhyw swyddog arall a dybir yn angenrheidiol a hefyd benderfynu ei ddyletswyddau a'r gydnabyddiaeth (os bydd un) a delir iddo. | 25. SWYDDOGION ERAILL. Bydd gan y Pwyllgor hawl i benodi unrhyw swyddog arall a dybir sy'n angenrheidiol, a hefyd i benderfynu ar ei ddyletswyddau/dyletswyddau a'r gydnabyddiaeth (os o gwbl) a delir iddo/iddi. |
| CYFRIFON | |

| | |
|--|--|
| 26. ARCHWILIO. Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno yr holl Gyfrifon o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Archwiliwr i arolygu'r holl lyfrau, gweithredoedd, cyfrifon a phapurau eraill yn ymwneud a gwaith y Gymdeithas i'r diben o baratoi adroddiad ar y sefyllfa i'w gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. | 26. CYFRIFON. Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno'r holl gyfrifon o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Cyfrifydd ar gyfer eu cadarnhau, i arolygu'r holl lyfrau, gweithredoedd, cyfrifon a phapurau eraill yn ymwneud â gwaith y Gymdeithas i'r diben o baratoi adroddiad ar y sefyllfa i'w gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |
| 27. GWELD CYFRIFON. Caniateir y cyfle i unrhyw aelod weld llyfrau a chyfrifon y Gymdeithas yn ystod y diwrnod y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ond gwneud cais i'r Ysgrifennydd saith niwrnod ymlaen llaw. | 27. GWELD CYFRIFON. Caniateir y cyfle i unrhyw aelod weld llyfrau a chyfrifon y Gymdeithas yn ystod y diwrnod y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ond gwneud cais drwy'r Swyddog Gweinyddol saith niwrnod ymlaen llaw. |
| NEWID Y CYFANSODDIAD | |
| 28. NEWID Y CYFANSODDIAD. Gellir newid y cyfansoddiad a rheolau'r gymdeithas drwy bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodau'r gymdeithas a fo'n bresennol ac wedi pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig o aelodau'r gymdeithas wedi ei alw'n arbennig yn ol rheolau'r Gymdeithas. | 28. NEWID Y CYFANSODDIAD. Gellir newid Cyfansoddiad y gymdeithas drwy bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodau'r gymdeithas sy'n bresennol mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig o aelodau'r gymdeithas wedi ei alw yn unol â rheolau'r gymdeithas. |
| DIRWYN Y GYMDEITHAS I BEN | |
| 29. Gellir dwyn y Gymdeithas i ben trwy (a) i dair rhan o bedair o'r aelodau arwyddo gweithrediad yn mynegi eu hawydd i hyn, neu (b) drwy bleidlais mwyafrif o dair rhan o bedair o aelodau'r Gymdeithas a fo'n bresennol ac wedi pleidleisio mewn cyfarfod Cyffredinol Arbennig o aelodau'r Gymdeithas wedi ei alw'n arbennig yn unol a rheolau'r Gymdeithas i'r pwrpas o ystyried dwyn y Gymdeithas i ben. | 29. Gellir dirwyn y Gymdeithas i ben trwy (a) i dair rhan o bedair o'r aelodau arwyddo datganiad yn mynegi eu dymuniad i wneud hyn, neu (b) drwy bleidlais mwyafrif o dri-chwarter aelodau'r Gymdeithas sy'n bresennol mewn cyfarfod Cyffredinol Arbennig o aelodau'r Gymdeithas wedi ei alw'n arbennig, yn unol â rheolau'r Gymdeithas, i'r pwrpas o ystyried dirwyn y Gymdeithas i ben. Cworwm y cyfarfod fydd 10 y cant o aelodaeth y Gymdeithas ar y pryd. |
| 30. Os dygir y Gymdeithas i ben, trosglwyddir unrhyw eiddo a fo'n perthyn iddi i ryw gorff elusenol a chanddo ddibenion diwylliannol cyffelyb i ddibenion y Gymdeithas yn ol penderfyniad y Gymdeithas mewn Cyfarfod Cyffredinol, neu oni phenderfynir gan y Gymdeithas yn ol penderfyniad y Pwyllgor Gwaith. | 30. Os dygir y Gymdeithas i ben, ar ôl talu pob dyled trosglwyddir unrhyw eiddo sy'n perthyn iddi i gorff elusennol â chanddo amcanion diwylliannol cyffelyb i amcanion y Gymdeithas yn ôl penderfyniad y Gymdeithas mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig. |

Buddion a thaliadau i ymddiriedolwr elusen ac unigolion cysylltiedig

Nodiadau Esboniadol

Gall ymddiriedolwyr elusen gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdodiad cyfreithiol penodol ganddynt i wneud hynny (megis cymal yn y cyfansoddiad). Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys pobl sydd â chysylltiad agos â'r ymddiriedolwr ('unigolion cysylltiedig' - mae'r term hwn wedi'i ddiffinio yng nghymal 34 Dehongli). Mae'r cymal hwn yn egluro'r cyfyngiadau sy'n gymwys i'r ymddiriedolwyr elusen. Hyd yn oed os yw ymddiriedolwyr wedi'u caniatáu i gael budd o'r elusen, rhaid i hyn ddigwydd dim os yw'r budd er lles yr elusen. Mae ein canllaw *Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11)* yn rhoi mwy o wybodaeth am fuddion ymddiriedolwyr, ac mae'r ddolen isod.

<http://www.charitycommission.gov.uk/welsh/Publications/cc11.aspx>

Mae'r cymal isod yn caniatáu i leiafrif o'r ymddiriedolwyr elusen neu unigolion cysylltiedig gael taliadau a buddion eraill mewn rhai achosion (megis ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y maen nhw'n eu cyflenwi i'r elusen), yn amodol ar y rheolaethau a nodwyd. Mae'r dewis hefyd yn caniatáu i fathau eraill o fudd ymddiriedolwyr, yn amodol ar gydsyniad blaenorol y Comisiwn.

Nid yw unrhyw ran o'r cymal yn caniatáu i'r ymddiriedolwyr dderbyn tâl am weithredu fel ymddiriedolwr.

Buddion a thaliadau i ymddiriedolwr elusen ac unigolion cysylltiedig

(1) Darpariaethau cyffredinol

Ni all unrhyw ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig:

- (a) prynu neu dderbyn unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr elusen ar delerau sy'n well na'r rhai sy'n gymwys i aelodau'r cyhoedd;
- (b) gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fudd mewn tir i'r elusen;
- (c) cael ei gyflogi gan yr elusen, neu dderbyn unrhyw dâl gan yr elusen;
- (ch) cael unrhyw fudd ariannol arall gan yr elusen;

oni bai bod y taliad wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r cymal hwn neu wedi'i awdurdodi gan y llys neu gan y Comisiwn Elusennau ('y Comisiwn'). Yn y cymal hwn ystyr 'budd ariannol' yw budd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

(2) Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion ymddiriedolwyr neu unigolion cysylltiedig

- (a) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd o'r elusen yn ei rinwedd fel buddiolwr yr elusen ar yr amod nad yw'r mwyafrif o'r ymddiriedolwyr yn cael budd yn y modd hwn.
- (b) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig arwyddo contract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â darparu gwasanaethau, i'r elusen lle y caniateir hynny yn unol â'r amodau yn adran 185 Deddf Elusennau 2011, ac yn ddarostyngedig i'r amodau hynny.
- (c) Yn amodol ar is-gymal (3) y cymal hwn gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig roi nwyddau i'r elusen nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir i'r elusen gan ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig.
- (ch) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r elusen ar gyfradd resymol a phriodol na ddylai fod yn fwy na chyfradd banc Banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol).
- (d) Gall yr ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig gael rhent am adeiladau a osodir gan yr ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig â'r elusen. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i'r ymddiriedolwr elusen dan sylw fod yn absennol o unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.
- (dd) Gall ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu a gweithgareddau codi arian arferol yr elusen ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

(3) Taliad am gyflenwi nwyddau yn unig - rheolaethau

Gall yr elusen a'i hymddiriedolwyr elusen ddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir gan is-gymal (2)(c) y cymal hwn dim ond os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

- (a) Mae swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau wedi'i bennu mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr elusen a'r ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ('y cyflenwr') ac o dan y cytundeb bydd y cyflenwr yn cyflenwi'r nwyddau dan sylw i'r elusen neu ar ei rhan.
- (b) Nid yw swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.

- (c) Mae'r ymddiriedolwyr elusen eraill yn fodlon ei fod er lles gorau'r elusen i arwyddo contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na rhywun sydd heb fod yn ymddiriedolwr elusen neu'n unigolyn cysylltiedig. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen bwysu a mesur manteision arwyddo contract gydag ymddiriedolwr elusen neu unigolyn cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.
- (ch) Mae'r cyflenwr yn absennol o'r rhan o unrhyw gyfarfod lle y trafodir y cynnig i arwyddo contract neu drefniadau gydag ef neu hi ynghylch cyflenwi nwyddau i'r elusen.
- (d) Nid yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nid yw'n cael ei gyfrif wrth gyfrifo a yw cworwm yr ymddiriedolwyr elusen yn bresennol yn y cyfarfod.
- (dd) Mae'r rheswm dros eu penderfyniad yn cael ei gofnodi gan yr ymddiriedolwyr elusen yn y llyfr cofnodion.
- (e) Nid yw mwyafrif o'r ymddiriedolwyr elusen sydd yn eu swyddi yn derbyn tâl neu daliadau wedi'u hawdurdodi gan gymal 5.

(4) Yn is-gymalau (2) a (3) y cymal hwn:

- (a) mae 'yr elusen' yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae'r elusen yn:
 - (i) dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu
 - (ii) rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau; neu
 - (iii) cael hawl i benodi un neu ragor o'r ymddiriedolwyr i fwrdd y cwmni.
- (b) mae 'unigolyn cysylltiedig' yn cynnwys unrhyw un o fewn y diffiniad a bennwyd yng nghymal 34 (Dehongli).